

Y CYNNIG

Cyflwyno Boyd Park

Cynnig yw Boyd Park ar gyfer cymdogaeth newydd dan arweiniad y dirwedd ar dir ar ymyl y pentref.

Byddai'n darparu tua 500 o gartrefi, ynghyd ag ysgol gynradd newydd, cyfleusterau lleol a mannau agored hael sydd ar gael i'r cyhoedd.

Byddai'r cartrefi wedi'u cysylltu â mannau gwyrdd, llwybrau cerdded a beicio, ardaloedd chwarae a chyfleusterau cymunedol, gan helpu i wneud mwy o deithiau bob dydd heb gar.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i ystyried y cynigion sy'n datblygu a helpu i lunio'r cynlluniau cyn cyflwyno cais cynllunio.

Mae'r cynlluniau sy'n datblygu yn cynnwys:

Tua 500 o gartrefi newydd

Cymysgedd o dai marchnad a thai fforddiadwy

Ysgol gynradd newydd a chanolfan leol fach

Parciau, ardaloedd chwarae a mannau gwyrdd naturiol

Llwybrau cerdded a beicio newydd a gwell

Mae'r holl ffigurau a ddangosir yn enghreifftiol a gallant newid wrth i'r cynigion ddatblygu.

500

tua 500 o gartrefi yn y cam ymgynghori hwn

TIRWEDD A CHYMERIAD

Lle wedi'i lunio gan ei amgylchoedd

Byddai cymeriad Boyd Park yn dechrau gyda'i dirwedd.

Byddai'r nant, y gwrychoedd presennol, coed aeddfed a nodweddion naturiol eraill yn helpu i bennu lleoliad cartrefi, strydoedd a mannau agored.

Byddai parcdir newydd yn darparu lleoliad gwyrdd i'r datblygiad ac yn helpu i gysylltu gwahanol rannau o Boyd Park. Byddai cartrefi'n wynebu strydoedd a mannau agored, gan gefnogi goruchwyliaeth naturiol a llwybrau croesawgar.

Byddai'r cynllun yn ystyried golygfeydd i mewn ac allan o Boyd Park, cymunedau cyfagos a'r newid rhwng datblygiad a chefn gwlad.

Byddai dylunio gofalus ar ymylon y safle yn helpu'r gymdogaeth i ymgartrefu yn ei lleoliad wrth i'r plannu aeddfedu.

Mae'r cynlluniau sy'n datblygu yn cynnwys:

Mae'r dirwedd yn sefydlu strwythur y gymdogaeth

Chwe ardal gymeriad gysylltiedig

Mathau amrywiol o adeiladau, deunyddiau, plannu a dylunio strydoedd

6

ardaloedd cymeriad gwahanol ond cysylltiedig



CARTREFI

Creu cartrefi ar gyfer gwahanol anghenion

Byddai Boyd Park yn darparu dewis o gartrefi i bobl ar wahanol gyfnodau o'u bywyd.

Mae'r cynigion sy'n datblygu yn cynnwys fflatiau, tai teras, tai tref a chartrefi ar wahân. Bwriedir i'r cymysgedd ddiwallu anghenion prynwyr tro cyntaf a theuluoedd ifanc, yn ogystal ag aelwydydd mwy a phobl sy'n symud i gartref llai.

Cynigir hyd at 40% o'r cartrefi fel tai fforddiadwy, yn amodol ar y broses gynllunio a gwaith hyfywedd pellach. Gallai hyn gynnwys rhent fforddiadwy a pherchnogaeth a rennir.

Byddai cartrefi fforddiadwy'n cael eu dosbarthu ar draws y gymdogaeth a'u dylunio i'r un safonau â chartrefi'r farchnad.

Bydd union gymysgedd, golwg a deunyddiau'r cartrefi yn parhau i ddatblygu wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

Mae'r cynlluniau sy'n datblygu yn cynnwys:

Amrywiaeth o feintiau a deiliadaethau
Cartrefi'n edrych dros fannau gwyrdd
Cartrefi teuluol yn agos at ardaloedd chwarae
Cartrefi mwy cryno ger yr ysgol a'r ganolfan leol



40%

cynigir hyd at 40% o dai fforddiadwy



MANNAU GWYRDD, ECOLEG A DŴR

Cymdogaeth wyrddach ac iachach

Cynigir tua 12 hectar o fannau agored cyhoeddus, mannau chwarae a thirwedd naturiol.

Byddai'r nant, y gwrychoedd presennol a'r parcdir newydd yn ffurfio rhwydwaith gwyrdd cysylltiedig, gyda chwarae a hamdden ochr yn ochr ag ardaloedd tawelach i fywyd gwyllt, llwybrau anffurfiol, seddi a rhandiroedd.

Byddai plannu newydd yn cryfhau cynefinoedd presennol ac yn creu cyfleoedd i adar, pryfed a bywyd gwyllt arall. Yr uchelgais enghreifftiol yw cynnydd net o 20% o leiaf mewn bioamrywiaeth.

Byddai gerddi glaw, pantiau a phyllau yn casglu ac yn arafu dŵr glaw, gan greu nodweddion gwyrdd deniadol a chynefinoedd ychwanegol.

Caiff y strategaeth ei mireinio drwy waith ecolegol, draenio a choedyddiaeth, ochr yn ochr ag adborth y gymuned.

Mae'r cynlluniau sy'n datblygu yn cynnwys:

Parciau, mannau chwarae a thirwedd naturiol gysylltiedig
Nodweddion draenio cynaliadwy gweladwy
Llwybrau gwyrdd fel rhan o fywyd bob dydd



12 ha

mannau agored cyhoeddus, chwarae a thirwedd naturiol



SYMUD

Ei gwneud yn haws cerdded, beicio a chysylltu

Mae Boyd Park yn cael ei gynllunio o amgylch teithiau byr a diogel bob dydd.

Byddai strydoedd a llwybrau cysylltiedig yn ei gwneud yn haws cerdded neu feicio rhwng cartrefi, yr ysgol gynradd, y ganolfan leol, ardaloedd chwarae a mannau agored.

Byddai'r ysgol gynradd o fewn pellter cerdded i'r rhan fwyaf o gartrefi, gyda llwybrau diogel a pharcio beiciau. Byddai strydoedd yn annog cyflymderau cerbydau is, gan gadw mynediad ymarferol.

Byddai llwybrau newydd yn cysylltu Boyd Park â'r pentref presennol, cymunedau cyfagos a'r rhwydwaith cerdded a beicio ehangach.


Byddai'r cynllun yn caniatáu mynediad cyfleus at wasanaethau bws. Byddai parcio a gwefru cerbydau trydan yn cael eu hintegreiddio heb ddominyddu'r strydoedd.

Mae'r cynlluniau sy'n datblygu yn cynnwys:

Llwybrau diogel i'r ysgol a chyfleusterau cymunedol

Cysylltiadau y tu hwnt i'r safle

Gwaith trafndiaeth i nodi gwelliannau ategol



3 km

Llwybrau cerdded a beicio newydd neu well



YSGOL A CHYFLEUSTERAU LLEOL

Cefnogi bywyd cymunedol bob dydd

Mae angen mwy na chartrefi ar gymdogaethau llwyddiannus.

Cynigir Ysgol Boyd Park wrth galon y gymuned, o fewn pellter cerdded hawdd i'r rhan fwyaf o gartrefi. Gallai gynnwys ystafelloedd ar gyfer gweithgareddau cymunedol y tu allan i oriau ysgol.

Cynigir canolfan leol fach o amgylch man gwyrdd. Yn dibynnu ar y galw, gallai gynnwys siop gyfleustra, caffi, man gwaith hyblyg neu wasanaethau bach eraill.

Byddai ardaloedd chwarae'n cael eu dosbarthu ar draws Boyd Park ar gyfer gwahanol oedrannau a gweithgareddau. Byddai rhandiroedd, meinciau, llwybrau a mannau gwyrdd anffurfiol yn creu mwy o gyfleoedd i gyfarfod a threulio amser yn yr awyr agored.

Nid yw'r union gymysgedd wedi'i bennu eto. Bydd adborth yr ymgynghoriad yn helpu i nodi pa ddefnyddiau y mae pobl leol yn eu hystyried fwyaf defnyddiol.

Mae'r cynlluniau sy'n datblygu yn cynnwys:

- Ysgol gynradd newydd
- Ystafelloedd a rennir ar gyfer gweithgareddau cymunedol
- Canolfan gymdogaeth fach a hygyrch
- Mannau chwarae a chyfarfod anffurfiol



Lleol

cyfleusterau bob dydd yn agos at y cartref



BETH SY'N DIGWYDD NESAF

O gynnig i gais cynllunio

Mae'r cynlluniau a ddangosir heddiw yn dal i gael eu datblygu.

Bydd astudiaethau technegol ar drafnidiaeth, draenio, ecoleg, tirwedd, cyfleustodau a seilwaith lleol yn llywio cam nesaf y dyluniad, ynghyd ag adborth yr ymgynghoriad.

Bydd cais cynllunio'n cynnwys cynlluniau manwl a dogfennau ategol. Yna bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn cynnal ei ymgynghoriad statudol ei hun cyn penderfynu ar y cais.

Os rhoddir caniatâd, efallai y bydd angen cymeradwyaethau pellach cyn y gall y gwaith adeiladu ddechrau. Byddai datblygiad o'r maint hwn yn digwydd fesul cam yn hytrach nag ar unwaith.

Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd tîm y prosiect yn:

- 01 Adolygu a dadansoddi adborth
- 02 Nodi pryderon ac awgrymiadau sy'n codi dro ar ôl tro
- 03 Mireinio'r cynigion
- 04 Cwblhau'r gwaith technegol ategol
- 05 Paratoi a chyflwyno cais cynllunio



Nesaf

mae adborth a thystiolaeth yn llywio cam nesaf y dyluniad

DYWEDWCH EICH DWEUD

Helpwch i lunio'r cynlluniau

Hoffem wybod beth yw eich barn am y cynigion sy'n datblygu ar gyfer Boyd Park.

Bydd pob ymateb yn cael ei adolygu gan dîm y prosiect, ei grwpio'n themâu a'i ystyried ochr yn ochr â thystiolaeth dechnegol a pholisi cynllunio.

Bydd adroddiad ymgynghori yn cyd-fynd â'r cais cynllunio. Bydd yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn egluro sut ymatebodd tîm y prosiect.

Nid yw cymryd rhan nawr yn effeithio ar eich hawl i wneud sylw ar wahân yn ystod ymgynghoriad statudol yr awdurdod cynllunio lleol.

Mae'r cynlluniau sy'n datblygu yn cynnwys:

Cymysgedd a math y cartrefi

Yr ysgol a'r cyfleusterau lleol

Parciau, chwarae a mannau gwyrdd naturiol

Cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus

Cymeriad a golwg y gymdogaeth



SGANIWCH I GYFRANOGI

Ewch i boyd-park.consultonline.uk i adolygu'r cynigion a rhannu eich barn.